Prinder Stoc Analogau GLP-1 Chwistrelladwy a Thrwy'r Geg

Gwybodaeth i gleifion

Anfonwyd y daflen hon atoch oherwydd eich bod yn cymryd analog GLP-1 ar gyfer diabetes math 2. Mae prinder analogau GLP-1 ledled y DU.

Mae analogau GLP-1 yn cynnwys:

- Dulaglutide (Trulicity®)
- Exenatide (Byetta® neu Bydureon®)
- Semaglutide (Ozempic® neu Rybelsus®)
- Liraglutide (Victoza®)
- Lixisenatide (Lyxumia®)

Rheswm dros y prinder

Mae'r prinder oherwydd y galw cynyddol am analogau GLP-1. Nid oes ganddo unrhyw beth i'w wneud â'ch fferyllfa, practis meddyg teulu neu Wasanaeth Arbenigol Diabetes.
Bydd ein gwasanaeth diabetes arferol yn gwybod am y prinder. Bydd ganddynt ganllawiau i'ch helpu i reoli'ch diabetes tra bod yr analogau GLP-1 yn brin.

Pryd fydd y prinder drosodd

Ni ddisgwylir i'r cyflenwad o analogau GLP-1 ddychwelyd i normal tan ganol 2024 ar y cynharaf.

Sut i reoli eich meddyginiaeth diabetes tra bod prinder

Parhewch i gymryd eich holl feddyginiaeth diabetes fel arfer. Mae hyn yn cynnwys eich analog GLP-1 os oes gennych rywfaint o hyd, neu os gallwch barhau i'w gael. Dywedwch wrth eich practis os na allwch gael eich meddyginiaeth.

Pryd y cewch adolygiad o ddiabetes

Efallai y bydd angen adolygiad cynharach arnoch ar gyfer eich diabetes. Byddwn yn gwneud ein gorau i'ch gweld cyn gynted ag y gallwn, ond mae llawer o bobl ar analogau GLP-1 y mae angen eu hadolygu. Gofynnwch am gyngor yn gynt os yw eich rheolaeth diabetes yn gwaethygu'n gyflym. Efallai y byddwn yn gofyn am brawf gwaed monitro yn gynt na'r disgwyl. Os ydych yn teimlo'n sâl, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y daflen hon.

Newidiadau i'ch triniaeth diabetes

Efallai y bydd angen newid triniaeth arnoch. Bydd hyn yn cael ei drafod yn ystod eich apwyntiad adolygu.

Dyddiad: Gorffennaf 2023
Dyddiad Adolygu: Gorffennaf 2024

Awduron: Rhwydwaith Diabetes Cenedlaethol Cymru. Julie Lewis. Cath Washbrook-Davies. Sarah Davies. Pam Brown.

Ffyrdd eraill o gadw'ch rheolaeth diabetes yn sefydlog

Cyngor GIG Cymru yw atgyfeirio pobl y mae prinder analog GLP-1 yn effeithio arnynt at raglenni addysg strwythuredig. Gallwch gael mynediad at y rhaglenni hyn ar-lein neu mewn sesiynau grŵp wyneb yn wyneb. Mae rhaglenni addysg strwythuredig yn effeithiol iawn ac yn cael eu hargymell yn gryf. Maen nhw'n eich helpu i wneud newidiadau cadarnhaol i reoli'ch diabetes yn dda.

Beth i'w wneud os ydych chi'n teimlo'n sâl

Dilynwch y canllawiau hyn hyd yn oed os nad yw'r prinder analogau GLP-1 yn effeithio arnoch

Ewch i weld eich meddyg teulu cyn gynted â phosibl os oes gennych symptomau glwcos gwaed uchel, fel:

- teimlo'n sychedig iawn
- pasio dŵr yn aml
- teimlo'n wan neu'n flinedig
- golwg aneglur
- colli pwysau

Ffoniwch 111 i gael help os ydych chi'n meddwl bod gennych glwcos gwaed uchel ac:

- rydych chi'n teimlo eich bod chi'n mynd i chwydu
- rydych chi'n chwydu
- mae gennych boen stumog
- rydych chi'n anadlu'n gyflymach nag arfer
- mae eich calon yn curo'n gyflymach nag arfer
- rydych chi'n teimlo'n gysglyd neu'n ei chael hi'n anodd aros yn effro
- mae arogl ffrwythau ar eich anadl (fel melysion 'pear drop')
- rydych yn teimlo'n ddryslyd neu'n cael anhawster canolbwyntio
- mae gennych lefel uchel o getonau yn eich gwaed neu wrin

Gallai'r rhain fod yn arwyddion eich bod yn mynd yn sâl iawn.

Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad: Gorffennaf 2023
Dyddiad Adolygu: Gorffennaf 2024

Awduron: Rhwydwaith Diabetes Cenedlaethol Cymru. Julie Lewis. Cath Washbrook-Davies. Sarah Davies. Pam Brown.